**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM -/01275/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

deisebau@senedd.cymru

23 July 2020

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf ynghylch deiseb P-05-994 *Caniatáu i adeiladau eglwysi ailagor – er enghraifft, ar gyfer addoli ar y cyd*.

Ers dechrau'r pandemig, mae Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, wedi cadeirio cyfarfodydd Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru, sydd wedi trafod agor mannau addoliad yn ddiogel. Roeddwn yn falch o fod yn bresennol yng nghyfarfod y fforwm ar 3 Mehefin.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, gydag aelodau o'r Fforwm Ffydd, i ystyried yr adborth a gafwyd gan gymunedau ffydd i ddatblygu protocol ar gyfer ail-agor addoldai yn ddiogel. Roeddem wedi ymrwymo i ddatblygu dull Cymru o ddatgloi gweithgareddau ffydd mewn partneriaeth â Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru. Rydym yn ddiolchgar i gymunedau ffydd ledled Cymru am eu mewnbwn.

Mae swyddogion mewn cyswllt rheolaidd ag aelodau'r Fforwm yn ogystal â chydag aelodau'r grŵp Angladdau, Claddedigaethau ac Amlosgiadau, sydd hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau ynghylch ailagor mannau addoli.

Ar 19 Mehefin, cyhoeddais ailagor mannau addoliad ar gyfer gweddïo preifat a phriodasau.

Ar 10 Gorffennaf, cyhoeddais fesur llacio pellach i alluogi i wasanaethau a seremonïau dan do ailddechrau, yn amodol ar weithredu mesurau pellhau cymdeithasol. Cyhoeddais hefyd y gallai hyd at 30 o bobl gwrdd yn yr awyr agored i addoli pan drefnwyd hynny gan gorff crefyddol neu gred.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae mannau addoli yn chwarae rhan bwysig o ran darparu arweinyddiaeth ysbrydol i lawer o unigolion, ac o ran dod â chymunedau at ei gilydd. Fodd bynnag, mae eu natur gymunedol hefyd yn eu gwneud yn lleoedd sy'n arbennig o agored i'r perygl o wasgaru coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r cymunedau ffydd yng Nghymru i adolygu'r sefyllfa a chynllunio ar gyfer ailagor mannau addoli ymhellach fel y mae'r Cyngor ynghylch risgiau trosglwyddo yn ei ganiatáu.

Mae'r canllawiau sy'n ymwneud ag addoldai ar gael yma: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ailagor-mannau-addoli-coronafeirws

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**